Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

# TROSEDDAU CASINEB: A DDYLID YMESTYN Y TROSEDDAU PRESENNOL?

## Crynodeb i'r sawl nad ydynt yn arbenigwyr

Law Com No 348 (Crynodeb)

## Comisiwn y Gyfraith

**Adroddiad Rhif LC348**

# TROSEDDAU CASINEB: A DDYLID YMESTYN Y TROSEDDAU PRESENNOL?

## Crynodeb i'r sawl nad ydynt yn arbenigwyr

# RHAN 1
# CYFLWYNIAD

1.1 Dyma grynodeb o'n hadroddiad ar droseddau casineb,[1] gyda throsolwg o'r adroddiad a'r argymhellion a wnawn ynddo ar gyfer pobl nad oes ganddynt wybodaeth arbenigol am y gyfraith.

**TELERAU'R PROSIECT**

1.2 Cyfeiriwyd y prosiect hwn atom ni gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n ffurfio rhan o gynllun ehangach trawslywodraethol i fynd i'r afael â throsedd casineb, a lansiwyd fis Mawrth 2012. Yn y cynllun hwnnw, esboniodd y Llywodraeth ei bod am ganolbwyntio ar:

- atal troseddau casineb – trwy herio'r agweddau sy'n sail iddo, ac ymyrraeth gynnar i'w atal rhag gwaethygu;
- cynyddu adrodd a mynediad at gefnogaeth – trwy feithrin hyder dioddefwyr a chefnogi partneriaethau lleol;
- gwella ymateb gweithredol i droseddau casineb – trwy nodi a rheoli achosion yn well, a delio'n effeithiol â throseddwyr.[2]

1.3 Yn benodol, gofynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ni edrych ar:

> "(a) ymestyn y troseddau gwaethygedig yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i gynnwys lle'r arddangosir gelyniaeth tuag at bobl ar sail anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd [hy "trawsryweddol"];
>
> (b) yr achos dros ymestyn troseddau ysgogi casineb o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 i gynnwys ysgogi casineb ar sail anabledd neu hunaniaeth o ran rhywedd."

**TROSOLWG O'R GYFRAITH FEL AG Y MAE**

1.4 Ar hyn o bryd, mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ("CPS") yn cofnodi fel "troseddau casineb" unrhyw drosedd sy'n cael ei gweld, gan y dioddefwr neu berson arall fel un sydd wedi'i hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsryweddol. Er bod "troseddau casineb" yn cael eu cofnodi am bob un o'r pum "nodwedd warchodedig" hyn, nid yw'r troseddau sy'n ymdrin yn benodol â throseddau casineb ond yn ymdrin â rhai o'r nodweddion.

1.5 Mae'r set gyntaf o droseddau casineb yn "droseddau gwaethygedig" ac wedi'u cynnwys yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ("CDA"). Os yw person yn cyflawni un o restr o droseddau ac, wrth wneud hynny, yn arddangos neu'n cael ei ysgogi gan elyniaeth ar sail *hil* neu *grefydd*, mae'r drosedd honno yn dod yn drosedd

[1] http://lawcommission.justice.gov.uk/areas/hate_crime.htm.

[2] Llywodraeth EM, Herio, Adrodd, Atal: Cynllun y Llywodraeth i daclo Troseddau Casineb (Mawrth 2012) para 1.19

"waethygedig" ar wahân, gyda dedfryd lymach ar gael. Ar hyn o bryd, nid yw'r troseddau gwaethygedig yn cwmpasu gelyniaeth ar sail cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth drawsryweddol nac anabledd.

1.6 Yr ail set o droseddau casineb yw troseddau "ysgogi casineb". Mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn Neddf Trefn Gyhoeddus 1986 ("POA"). Maent yn ymdrin â'r broblem o geisio ysgogi casineb ar sail *hil*, *crefydd* neu *gyfeiriadedd rhywiol*. Ar hyn o bryd, nid yw'r troseddau ysgogi yn cwmpasu casineb ar sail hunaniaeth drawsryweddol neu anabledd.

1.7 Yn ogystal â'r troseddau hyn, mae'r gyfraith yn delio â throseddau casineb trwy bwerau dedfrydu arbennig fel y nodir yn adrannau 145 a 146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ("CJA"). Rydym yn galw hyn yn "ddedfrydu estynedig" yn y ddogfen hon drwyddi draw. Gall y barnwr gynyddu'r ddedfryd ar gyfer troseddwr sy'n euog o unrhyw drosedd, os cafodd ei hysgogi gan elyniaeth neu ei bod yn cynnwys arddangos gelyniaeth ar sail unrhyw un o'r pum nodwedd. Mae'r un prawf arddangosiad neu brawf ysgogiad o dan y troseddau gwaethygedig yn berthnasol yma.

## Y PAPUR YMGYNGHORI

1.8 Gwnaethom gyhoeddi ein Papur Ymgynghori ("CP")[3] ar 27 Mehefin 2013. Edrychodd y CP ar yr achos dros ymestyn y ddwy set o droseddau, fel y byddent yn cwmpasu y pum nodwedd warchodedig i gyd. Nid oedd ein prosiect yn ymestyn i edrych ar unrhyw beth ehangach. Nid oedd yn gofyn: pam fod angen y troseddau casineb sy'n bodoli; a ddylent fod ar ffurf wahanol; neu a ddylent gwmpasu grwpiau eraill, fel pobl hŷn neu aelodau o isddiwylliannau, hyd yn oed pe bai troseddau ar sail gelyniaeth yn erbyn y rhain a grwpiau eraill yn digwydd.

1.9 Gwnaethom edrych hefyd ar sut mae dedfrydu estynedig yn gweithio a sut y bydd yn effeithio ar yr achos dros ymestyn y troseddau presennol. Fe ofynnom p'un a fyddai newidiadau yn gwneud dedfrydu estynedig yn fwy effeithiol.

1.10 Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 27 Medi 2013 ac fe dderbyniom 157 o ymatebion ysgrifenedig. Daethant oddi wrth gyrff anllywodraethol, asiantaethau cyfiawnder troseddol, barnwyr, ynadon, cyfreithwyr, academyddion ac aelodau'r cyhoedd, rhai ohonynt wedi dioddef troseddau casineb.

## TROSEDDAU CASINEB: Y CYD-DESTUN YSTADEGOL

1.11 Mae ystadegau ar droseddau casineb yn cael eu casglu, ac adroddir arnynt gan nifer o adrannau'r Llywodraeth ac asiantaethau cyfiawnder troseddol. Mae ystadegau ar nifer yr achosion sy'n cael eu hadrodd, eu cofnodi a'u herlyn fel troseddau casineb bob blwyddyn, wedi eu rhannu ar draws y pum nodwedd. Hefyd, mae ystadegau yn dangos nifer yr achosion o droseddau casineb a gofnodwyd sy'n cael eu herlyn bob blwyddyn a nifer yr euogfarnau sy'n dilyn. Yn Atodiad B yr adroddiad, rydym yn cyflwyno'r prif ystadegau cenedlaethol ar droseddau casineb. Rhoddir gwybodaeth gryno isod.

[3] Trosedd Casineb: Yr achos dros ymestyn y troseddau presennol (2013) Papur Ymgynghori Rhif 213, ar gael yn http://lawcommission.justice.gov.uk/consultations/hate_crime.htm.

1.12 Yn ôl ffigurau swyddogol sy'n seiliedig ar yr arolwg diweddaraf o droseddau yng Nghymru a Lloegr, ceir tua 278,000 o achosion o droseddau casineb bob blwyddyn, sef tua 3% o'r holl droseddau, yn ôl yr un arolwg. Ni rhoddir gwybod i'r heddlu am bob achos. Yn 2012, cofnododd yr heddlu 42,236 o achosion fel troseddau casineb. Roedd y cyfrannau ar gyfer y pum nodwedd fel a ganlyn: hil 85%; cyfeiriadedd rhywiol 10%; crefydd 4%; anabledd 4%; a thrawsrywiol 1%.

1.13 Mae gwybodaeth am nifer yr erlyniadau troseddau casineb bob blwyddyn wedi'i chynnwys yn adroddiad blynyddol y CPS sef *Troseddau Casineb a Throseddau yn Erbyn Pobl Hŷn*. Dywed yr adroddiad diweddaraf fod y CPS wedi cwblhau erlyn 13,070 o achosion troseddau casineb yn y flwyddyn 2012 i 2013. (Oherwydd y diffiniad ehangach y maent yn ei ddefnyddio ar gyfer trin rhywbeth fel troseddau casineb, nid erlyniadau am droseddau gwaethygedig neu ysgogi casineb neu lle defnyddiwyd dedfrydu estynedig yn unig fydd y rhain.)

1.14 Nid yw'r ystadegau yn dangos union faint neu natur troseddu ar sail gelyniaeth tuag at anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol.

**FFYNONELLAU GWYBODAETH YCHWANEGOL**

1.15 Nid ydym yn darparu cymaint o fanylder yma ag a wnawn yn ein prif adroddiad ac nid ydym yn rhoi cyfeiriadau at ein ffynonellau fel y gwnawn yno. Hefyd, nid yw'r crynodeb hwn yn manylu o ran yr ymatebion lluosog a hynod werthfawr a dderbyniom. Cyfeirir at y rhain yn fanwl yn ein prif adroddiad ac maent wedi'u nodi ar ffurf hwy mewn Dadansoddiad o Ymatebion, sydd ar gael ar-lein.[4]

1.16 Gellir mynd at y CP, gyda'n hargymhellion a'n cwestiynau wedi'u nodi'n llawn, o'n gwefan.[5] Mae atodiadau hefyd ar: y berthynas rhwng y troseddau casineb a'r hawl i ryddid mynegiant (Atodiad A CP); hanes deddfau troseddau casineb yng Nghymru a Lloegr (Atodiad B CP); ac effaith economaidd bosib rhoi ein hargymhellion dros dro ar waith (Atodiad B) Mae'r wefan hefyd yn cynnwys papur ar wahân gan Dr John Stanton-Ife ar y theori cyfreithiol ehangach y tu ôl i gyfraith troseddau casineb a pherthynas dadleuon damcaniaethol ag ymestyniad posibl y troseddau cyfredol.

[4] http://lawcommission.justice.gov.uk/areas/hate_crime.htm.

[5] http://lawcommission.justice.gov.uk/consultations/hate_crime.htm

# RHAN 2
# TROSEDDAU GWAETHYGEDIG A DEDFRYDU ESTYNEDIG

2.1 Mae'n bwysig deall sut y mae'r troseddau gwaethygedig sy'n delio â gelyniaeth tuag at hil a chrefydd yn gweithio oherwydd, pe baent yn cael eu hymestyn i gwmpasu nodweddion gwarchodedig eraill, byddai'r troseddau newydd yn gweithio yn yr un modd.

**Y GYFRAITH GYFREDOL AR DROSEDDAU GWAETHYGEDIG**

2.2 Mae rhywun sy'n cyflawni un o'r troseddau yn y rhestr isod ac, wrth wneud hynny, naill ai yn arddangos neu'n cael ei ysgogi gan, elyniaeth ar sail hil neu grefydd, yn cyflawni "trosedd waethygedig".

2.3 "Troseddau gwaethygedig" yw fersiynau gwaethygedig o droseddau penodol eraill, a defnyddiwn yr enw "troseddau sylfaenol" yn y crynodeb hwn. Nodir yr unig droseddau sylfaenol y gellir eu gwaethygu yn adrannau 29 i 32 y CDA. Y rhain yw:

(1) ymosod cyffredin;

(2) ymosod gan achosi niwed corfforol gwirioneddol;

(3) clwyfo maleisus neu niwed corfforol difrifol;

(4) dinistrio neu ddifrodi eiddo;

(5) ymddygiad bygythiol, difrïol neu sarhaus tuag at rywun gyda'r bwriad o achosi ofn trais neu gythruddo trais;

(6) ymddygiad bygythiol, difrïol neu sarhaus y bwriedir iddo achosi aflonyddwch, braw neu drallod;

(7) ymddygiad bygythiol, difrïol neu sarhaus sy'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod;

(8) aflonyddu a stelcio; a

(9) rhoi pobl mewn ofn o drais a stelcio sy'n cynnwys ofn trais, braw neu drallod difrifol.

2.4 Gall diffynnydd, D, fod yn atebol am ffurf waethygedig y troseddau os, wrth iddo gyflawni un o'r troseddau hyn:

(1) mae D yn *arddangos* gelyniaeth tuag at ddioddefwr y drosedd ar sail hil neu grefydd gwirioneddol neu dybiedig y dioddefwr.

(2) mae D yn cael ei *ysgogi* i gyflawni'r drosedd trwy elyniaeth tuag at aelodau grŵp hiliol neu grefyddol oherwydd eu haelodaeth o'r grŵp hwnnw

**Beth mae "arddangos gelyniaeth" yn ei olygu?**

2.5 Gellir arddangos gelyniaeth trwy eiriau, ystumiau ac ymddygiadau eraill, fel canu rhai caneuon. Nid oes ots pam fod y troseddwr wedi cyflawni'r drosedd sylfaenol. Y cyfan sy'n bwysig yw y dangoswyd gelyniaeth hiliol neu grefyddol tuag at y dioddefwr wrth wneud hynny. Nid oes ots ychwaith os oedd y troseddwr wedi camgymryd hil neu grefydd y dioddefwr.

2.6 Mae hefyd yn drosedd waethygedig arddangos gelyniaeth hiliol neu grefyddol tuag at ddioddefwr oherwydd ei fod yn cymysgu neu yn cymdeithasu ag aelodau'r hil neu grefydd y mae'r troseddwr yn elyniaethus tuag atynt, hyd yn oed os nad yw'r dioddefwr yn perthyn i'r grŵp hwnnw.

**Beth mae'n ei olygu i gael eu "hysgogi gan elyniaeth"?**

2.7 Mae trosedd sylfaenol yn cael ei hysgogi gan elyniaeth - ac felly'n dod yn drosedd waethygedig - pe bai'r troseddwr wedi ei chyflawni oherwydd gelyniaeth tuag at aelodau o grŵp hiliol neu grefyddol ar sail eu haelodaeth o'r grŵp hwnnw. Nid oes angen i elyniaeth hiliol neu grefyddol fod yr unig ysgogiad i'r troseddwr. Efallai fod y troseddwr hefyd yn cael ei ysgogi gan elyniaeth am resymau eraill, fel galwedigaeth y dioddefwr.

2.8 Gellir defnyddio ymddygiad y troseddwr ar adegau eraill i helpu i brofi cymhelliant: er enghraifft, perthyn i grŵp hiliol. Ond gall fod yn anodd profi pam fod rhywun wedi cyflawni trosedd. Caiff troseddau gwaethygedig eu herlyn yn amlach oherwydd arddangos gelyniaeth yn hytrach na chymhelliad gelyniaethus.

**Dedfrydau hirach am droseddau gwaethygedig**

2.9 Mae uchafswm y dedfrydau carchar sydd ar gael am droseddau gwaethygedig yn hirach na'r fersiynau troseddau sylfaenol. Yn y tabl isod, rydym yn dangos y gwahaniaethau rhwng uchafswm y dedfrydau ar gyfer troseddau sylfaenol, o'u cymharu â throseddau gwaethygedig.

| **Trosedd Sylfaenol** | **Uchafswm Cosb** | **Trosedd Waethygedig** | **Uchafswm Cosb** |
|---|---|---|---|
| Ymosod cyffredin | 6 mis | Ymosod cyffredin gwaethygedig | 2 flynedd |
| Niwed corfforol gwirioneddol | 5 mlynedd | Niwed corfforol gwirioneddol gwaethygedig | 7 mlynedd |
| Clwyfo maleisus/ Niwed corfforol difrifol | 5 mlynedd | Clwyfo maleisus/ Niwed corfforol difrifol gwaethygedig | 7 mlynedd |
| Difrod troseddol | 10 mlynedd | Difrod troseddol gwaethygedig | 14 mlynedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ofn neu gythruddo trais | 6 mis | Ofn neu gythruddo trais gwaethygedig | 2 flynedd |
| Aflonyddwch, braw neu drallod | Dirwy o hyd at £1,000 | Aflonyddwch, braw neu drallod gwaethygedig | Dirwy o hyd at £2,500 |
| Achosi aflonyddwch, braw neu drallod yn fwriadol | 6 mis | Achosi aflonyddwch, braw neu drallod gwaethygedig yn fwriadol | 2 flynedd |
| Trosedd o aflonyddu | 6 mis | Trosedd o aflonyddu gwaethygedig | 2 flynedd |
| Rhoi pobl mewn ofn trais | 5 flynedd | Rhoi pobl mewn ofn trais gwaethygedig | 7 mlynedd |

2.10 Pe bai dedfryd a roddir am drosedd waethygedig mewn achos penodol yn ymddangos yn rhy isel neu'n "rhy drugarog", gellir cyfeirio'r achos at y Llys Apêl i'w adolygu. Weithiau, mae hynny'n arwain at roi dedfryd hirach. Ni ellir herio dedfrydau a roddwyd am droseddau sylfaenol yn y modd hwn.

**Y GYFRAITH BRESENNOL AR DDEDFRYDU ESTYNEDIG**

2.11 Mae'r gyfraith yn darparu ymateb bellach i droseddu ar sail gelyniaeth: dedfrydu estynedig. Buom yn ystyried hyn wrth edrych ar yr angen i ymestyn y troseddau gwaethygedig. Pe bai unrhyw drosedd, ac eithrio trosedd waethygedig, yn cael ei chyflawni, gan gynnwys arddangos gelyniaeth neu un sydd wedi'i hysgogi gan elyniaeth ar sail hil, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol, gellir cynyddu dedfryd y troseddwr. Rydym yn galw'r cynllun hwn yn "ddedfrydu estynedig".

2.12 Mae'r un esboniadau o'r hyn a olygir wrth arddangos gelyniaeth a'r hyn a olygir i fod wedi'i ysgogi gan elyniaeth (gweler uchod) hefyd yn berthnasol i ddedfrydu estynedig.

2.13 Pe bai gelyniaeth yn cael ei phrofi, rhaid i'r llys ei hystyried wrth osod y ddedfryd. Rhaid i'r barnwr neu'r ynad sy'n rhoi'r ddedfryd ddatgan yn agored yn y llys yr ystyriwyd gelyniaeth a sut y cafodd y ddedfryd ei chynyddu o ganlyniad.

2.14 Gwelir y gyfraith ar ddedfrydu estynedig yn adrannau 145 a 146 y CJA. Mae adran 145 yn cwmpasu gelyniaeth ar sail hil a chrefydd. Mae a wnelo â dedfrydu unrhyw un wedi'i gollfarnu am drosedd lle mae gelyniaeth wedi'i phrofi, ar wahân i drosedd waethygedig o dan y CDA (sydd eisoes â dedfrydau uwch). Mae adran 146 yn cwmpasu gelyniaeth ar sail anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsrywiol. Mae'n cwmpasu unrhyw drosedd o gwbl lle gellir profi gelyniaeth, ar hyn o bryd. Ond pe bai troseddau gwaethygedig yn cael eu hymestyn i'r nodweddion newydd, byddai'n gweithio yn yr un modd ag adran 145. Gall y nodwedd "ddeuol" hon achosi problemau a dryswch, fel yr esboniwn yn

ddiweddarach: mae wedi peri i rai arbenigwyr amau p'un a yw ymestyn y troseddau gwaethygedig ar eu ffurf bresennol yn syniad da.

**Y dedfrydau sydd ar gael**

2.15 Mae'n rhaid i'r ddedfryd y mae barnwr yn ei rhoi gan ddefnyddio dedfrydu estynedig ddod o'r ystod sydd ar gael ar gyfer y drosedd dan sylw. Ni all y ddedfryd fod yn uwch na'r uchafswm cosb. Felly, pe bai D yn cyflawni lladrad a ysgogwyd gan elyniaeth homoffobig, ni all y ddedfryd fod yn hwy na saith mlynedd, hyd yn oed pe bai dedfrydu estynedig yn cael ei weithredu. (Ni fyddai hynny'n newid pe bai troseddau gwaethygedig yn cael eu hymestyn ar eu ffurf presennol i gwmpasu gelyniaeth cyfeiriadedd rhywiol, oherwydd nid yw lladrata yn drosedd y gellir ei gwaethygu).

2.16 Yn yr un modd, er enghraifft, uchafswm dedfryd am ymosod yw chwe mis o garchar, felly uchafswm dedfryd am ymosodiad yn cynnwys gelyniaeth ar sail anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol yw chwe mis o garchar. Ar y llaw arall, mae gan y troseddau gwaethygedig uchafswm dedfrydau uwch na'r fersiynau trosedd sylfaenol, felly mae'r uchafswm dedfryd am ymosod gwaethygedig hiliol neu grefyddol, a gyhuddir o dan y CDA, yn ddwy flynedd o garchar.

2.17 Bydd y swm y caiff y ddedfryd ei chynyddu trwy ddedfrydu estynedig yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r elyniaeth. Ymhlith y ffactorau sy'n cael eu hystyried mae effaith ymddygiad y troseddwr ar y dioddefwr ac eraill a ph'un a oedd yr elfen elyniaeth wedi'i chynllunio.

**Beth os na ellir profi gelyniaeth?**

2.18 Mae'r heddlu a'r CPS yn trin rhai troseddau yn erbyn pobl anabl, trawsryweddol neu lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (fel grŵp, "LGB") fel "troseddau casineb". Gall hyn ddigwydd oherwydd bod y dioddefwr neu rywun arall o'r farn bod y drosedd wedi'i hysgogi gan elyniaeth ar sail anabledd, statws drawsryweddol neu gyfeiriadedd rhywiol y dioddefwr. Gall ddigwydd hefyd oherwydd bod sylw difrïol y cyflawnwr am anabledd y dioddefwr yn dangos gelyniaeth ar y sail hwn pan gyflawnwyd y drosedd, er enghraifft.

2.19 Mewn rhai achosion, efallai na fydd hi'n bosib profi mai gelyniaeth oedd yn ysgogi'r drosedd neu fod gelyniaeth wedi'i harddangos. Mae'n dal i fod yn bosib i'r ddedfryd gael ei chynyddu i adlewyrchu difrifoldeb y drosedd. Er enghraifft, gallai person anabl fod yn ddioddefwr lladrad am fod y troseddwr yn meddwl ei fod yn darged hawdd. Gallai pobl gael eu targedu ar gyfer ymosodiad oherwydd eu bod wedi'u gwisgo fel Gothiaid neu yn perthyn i grŵp lleiafrifol arall. Yn y sefyllfa hon, mae darpariaethau a chanllawiau eraill eisoes yn rhoi'r pŵer i'r llysoedd gynyddu'r ddedfryd.[1]

[1] Gweler *Overarching Principles: Seriousness* (Rhagfyr 2004) a gyhoeddwyd gan y Cyngor Canllawiau Dedfrydu, sy'n nodi bod ffactorau sy'n awgrymu beiusrwydd uwch yn cynnwys (1) roedd gelyniaeth at grŵp lleiafrifol, neu aelod neu aelodau ohono, yn ysgogi'r drosedd; bod dioddefwr agored i niwed wedi'i dargedu yn fwriadol, neu fod yna gamddefnyddio pŵer neu swydd gyfrifol. Mae'r rhain yn amlwg yn berthnasol mewn cyd-destun troseddau casineb ac yn dal i fod yn berthnasol i benderfyniadau dedfrydu, er mai'r Cyngor Dedfrydu yw'r corff sydd bellach yn gyfrifol am gyhoeddi canllawiau.

## Y PAPUR YMGYNGHORI

### Dedfrydu estynedig: ymateb digonol?

2.20 Ym Mhennod 3 y CP, fe edrychom ar yr achos dros ymestyn y troseddau gwaethygedig i elyniaeth ar sail anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac hunaniaeth drawsryweddol. Yn gyntaf, fe wnaethom gymharu'r troseddau gyda'r system dedfrydu estynedig sydd newydd ei disgrifio, o gofio bod y system dedfrydu estynedig:

(1) eisoes yn berthnasol i droseddu seiliedig ar elyniaeth ar sail anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol, ac

(2) â phrawf gelyniaeth yn union yr un fath â'r un yn y troseddau gwaethygedig.

**Enghraifft 1**: Mae D yn cyflawni blacmel yn erbyn V, sy'n drawsryweddol, ac mae wedi'i ysgogi i wneud hynny ar sail ei elyniaeth tuag at bobl drawsryweddol. Uchafswm y ddedfryd am drosedd blacmel yw 14 blynedd. Rhaid i'r ddedfryd adlewyrchu holl amgylchiadau'r drosedd. Dan adran 146 CJA a chanllawiau dedfrydu perthnasol eraill, rhaid asesu difrifoldeb y gwaethygiad, trwy edrych ar ffactorau fel effaith yr ymddygiad ar V a'r graddau roedd yr ymddygiad wedi'i gynllunio neu yn ffurfio rhan o batrwm troseddu tebyg gan D. Wrth roi'r ddedfryd, rhaid i'r barnwr ddatgan yn y llys agored fod y drosedd wedi'i hysgogi gan elyniaeth tuag at bobl drawsryweddol. Pe bai'r gwaethygu a holl nodweddion eraill yr achos yn ei wneud yn arbennig o ddifrifol, gallai'r ddedfryd fod gymaint â 14 blynedd.

**Enghraifft 2:** Mae D yn cyflawni ymosodiad hir a difrifol ar berson sydd ag anabledd dysgu ac, wrth wneud hynny, mae'n cam-drin V yn eiriol trwy ddifrïo ei hanabledd, gan achosi mwy o drallod iddi. O ganlyniad i'r drosedd, mae V yn dioddef anafiadau difrifol a niwed seicolegol. Mae D yn cael ei gyhuddo o glwyfo maleisus gan beri niwed corfforol difrifol (adran 20 o Ddeddf Troseddau Corfforol 1861) a hefyd o drosedd dan adran 5 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986, am ddefnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol neu ddifrïol tuag at rywun sy'n debygol o ddioddef aflonyddwch, braw neu drallod. Uchafswm dedfryd y drosedd o beri niwed corfforol difrifol yw 5 mlynedd ac uchafswm dedfryd trosedd adran 5 yw dirwy o £1,000. Wrth roi'r ddedfryd, rhaid i'r barnwr gynnal yr un broses â'r hyn a ddisgrifiwyd yn yr enghraifft uchod. Unwaith eto, gallai'r ddedfryd fod ar ben uchaf y raddfa a, phe gosodir estyniad gelyniaeth dan adran 146, rhaid datgan hynny yn y llys agored.

2.21 Dengys yr enghreifftiau hyn botensial y cyfreithiau dedfrydu presennol i fynd i'r afael â throseddu ar sail gelyniaeth. Oherwydd bod y drefn dedfrydu eisoes yn benodol berthnasol i elyniaeth ar sail cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth trawsryweddol ac anabledd, roeddem am gadarnhau p'un a oedd y system

eisoes yn darparu ymateb digonol yn ymarferol, neu a allai wneud hynny pe bai'n cael ei gwella.

2.22 Pan oeddem yn trafod â rhanddeiliaid cyn i ni gyhoeddi'r CP, y mater a godwyd amlaf oedd y methiant i ddefnyddio dedfrydu estynedig mewn achosion o droseddau casineb tuag at bobl anabl ac achosion o droseddau casineb homoffobig a thrawsffobig. Bu llawer o bobl sydd wedi cael profiad o droseddau casineb a'u herlyn yn cwyno ynghylch methu ag ymchwilio i elyniaeth, cael tystiolaeth ohoni a chyflwyno'r dystiolaeth honno i'r llys fel y gellid ei defnyddio wrth ddedfrydu. Y neges eglur oedd y gallai dedfrydu estynedig fod yn arf pwerus yn y frwydr yn erbyn troseddau casineb, ond nad oedd digon o ddefnydd ohono.

2.23 Yn y CP, fe ofynnon p'un a allai'r system dedfrydu gael ei gwella fel y gallai ddarparu ymateb digonol i droseddau'n cynnwys gelyniaeth ar sail hunaniaeth drawsryweddol, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd. Roeddem yn gweld manteision mewn dull o fynd ati drwy ddedfrydu yn unig: eglurdeb, symlrwydd a hyblygrwydd. Fe wnaethom hefyd nodi bŵer cyfathrebu dedfrydu estynedig – rhaid i'r barnwr ddatgan yn y llys agored fod y ddedfryd wedi'i chynyddu oherwydd bod gelyniaeth i'r nodwedd honno wedi gwneud y drosedd yn fwy difrifol.

2.24 Gwnaethom egluro hefyd yn y CP nad yw'r ffaith bod dedfryd y troseddwr wedi ei hymestyn i adlewyrchu gelyniaeth fel elfen wrth droseddu fel rheol yn ymddangos yng nghofnod troseddol y troseddwr ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu ("PNC"). Gellir chwilio yn y gronfa ddata hon at ddibenion gwahanol, er enghraifft i weld cofnod troseddol blaenorol y troseddwr wrth iddo gael ei ddedfrydu am drosedd newydd. Gall yr awdurdod sy'n gyfrifol am wiriadau cofnodion troseddol (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) ei chwilio, er enghraifft pan fydd y troseddwr yn gwneud cais am swydd ac mae'r cyflogwr am weld p'un a yw unrhyw euogfarnau diweddar yn bodoli a fyddai'n gwneud y troseddwr yn anaddas ar gyfer y swydd honno.

2.25 Ar y llaw arall, pan fydd troseddwr wedi ei gael yn euog o drosedd waethygedig, bydd hynny bob amser yn ymddangos ar y PNC. O ganlyniad, nid oes gan asiantaethau yn y system cyfiawnder troseddol sy'n dibynnu ar y PNC fynediad at wybodaeth dedfrydu estynedig. Mae'n bosib y byddai nifer o asiantaethau yn cael budd ohoni, gan gynnwys yr heddlu, llysoedd, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth carchardai. Hefyd, ni fydd gwiriad cofnodion troseddol fel rheol yn datgelu'r ffaith fod gan droseddwr gofnod blaenorol o droseddu gelyniaethus gwaethygedig, ar wahân i lle mae troseddwr wedi cael euogfarn am drosedd waethygedig oherwydd hil neu grefydd dan CDA.

2.26 Arweiniodd ein dadansoddiad o ddedfrydu estynedig a'r troseddau gwaethygedig ni at y farn dros dro y gallai dedfrydu estynedig ddarparu ymateb ddigonol, pe bai yn cael ei roi ar waith yn gywir, gyda chofnod o'i ddefnyddio. Gwnaethom ddau argymhelliad dros dro i beri hyn:

(1) Canllaw Cyngor Dedfrydu[2] newydd, yn ymdrin â gelyniaeth; a

(2) chofnodi'r defnydd o ddedfrydu estynedig ar y PNC.

**Y troseddau gwaethygedig: yr achos dros ymestyn**

2.27 Yn y CP, fe edrychom ar yr achos dros ymestyn y troseddau gwaethygedig i gynnwys gelyniaeth ar sail cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, neu hunaniaeth drawsryweddol. Gwnaethom archwilio p'un a fyddai troseddau ar y ffurf hwn yn delio'n effeithiol â throseddau ar sail gelyniaeth yn erbyn pobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol a phobl drawsryweddol ac anabl. Gofynnon a fyddai troseddau eraill o bosib yn delio â'r troseddu hwn eisoes.

2.28 Gofynnon a fyddai troseddau gwaethygedig yn cynnig buddion na allai dedfrydu estynedig eu cynnig, gan gynnwys: yr uchafswm dedfrydau uwch ar gael; y "label" gwaethygedig yn mynegi'r troseddaethmwy difrifol; ac unrhyw effeithiau ataliol o'r dedfrydau uwch neu'r label "gwaethygedig" a'i warth ychwanegol.

2.29 Cynigiwyd dau opsiwn diwygio:

**Opsiwn 1:** ein dau ddiwygiad arfaethedig i ddedfrydu estynedig (uchod) i gynhyrchu system â'r gallu i ddarparu ymateb digonol

a/neu

**Opsiwn 2:** ymestyn y troseddau gwaethygedig.

2.30 Gofynnwyd i ymgyngoreion p'un a oeddent o'r farn y gallai Opsiwn 1 yn unig ddarparu datrysiad digonol i broblem trosedd ar sail gelyniaeth yn erbyn y sawl yr oedd ganddynt unrhyw rai o'r tair nodwedd warchodedig. Yna gofynnwyd iddynt a oeddent o'r farn bod troseddau gwaethygedig yn angenrheidiol, naill ai yn lle diwygiadau dedfrydu neu yn ogystal â nhw (Opsiwn 2). Rydym yn crynhoi'r ymatebion ym mharagraffau 2.39 – 2.48 isod.

**Modelau ar gyfer troseddau newydd**

2.31 Ar gyfer y prosiect hwn, roedd rhaid i ni gymryd yn ganiataol pe bai'r troseddau gwaethygedig yn cael eu hymestyn, byddent ar ffurf y troseddau gwaethygedig yn y CDA a oedd eisoes yn bodoli. Ni ofynnwyd i ni ystyried a fyddai rhyw ffurf arall ar drosedd yn well. Byddai mwyafrif elfennau'r troseddau yn parhau yr un fath pe baent yn berthnasol i'r tair nodwedd: byddai angen profi trosedd sylfaenol; a byddai angen profi gelyniaeth, naill ai drwy lwybr arddangos neu lwybr ysgogiad.

2.32 Er enghraifft, byddai'n drosedd waethygedig pe bai D, wrth gyflawni trosedd sylfaenol, yn arddangos gelyniaeth tuag at ddioddefwr trosedd sylfaenol ar sail anabledd y dioddefwr. Hefyd, fe fyddai'n drosedd waethygedig pe bai gelyniaeth at y dioddefwr oherwydd ei fod ef neu hi yn "ymwneud â" phobl anabl, neu yn ofalwr, yn feddyg neu'n weithiwr proffesiynol arall yn cynnig cymorth neu

[2] Mae'r Cyngor Dedfrydu yn gorff swyddogol sy'n hybu cynyddu cysondeb o ran dedfrydu ac mae'n cynhyrchu canllawiau i farnwyr, ar ddedfrydu. Ei nod yw cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd am ddedfrydu. I gael mwy o wybodaeth am y Cyngor a'i broses ynghylch canllawiau, ewch i: http://sentencingcouncil.judiciary.gov.uk/

wasanaethau i bobl anabl. Byddai'r un peth yn berthnasol lle mae dioddefwr yn "ymwneud â" phobl drawsryweddol a phobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol a bod yr elyniaeth ar y sail hwn.

2.33 Ond byddai'n rhaid i'r troseddu newydd ddiffinio "anabledd", "cyfeiriadedd rhywiol" a "hunaniaeth trawsryweddol". Byddai'r modd y diffinnir y termau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar gwmpas y troseddau. Byddai angen iddynt fod yn ddigon eglur i'r heddlu a'r sawl sy'n erlyn ddefnyddio'r troseddau i'r eithaf, ac i'r llysoedd eu dehongli yn unol â'r diben y bwriadwyd nhw ar eu cyfer.

2.34 Yn y CP, gwnaethom egluro y byddai'n well gennym i unrhyw droseddau newydd ddefnyddio'r un diffiniadau o'r tair nodwedd â'r system dedfrydu estynedig. Byddai'n haws pe defnyddid yr un diffiniadau i ddedfrydu a throseddau gwaethygedig, oni bai bod rheswm cryf i ffafrio diffiniad arall. Byddai hyn yn helpu osgoi anghysonderau neu fylchau rhwng y modd y defnyddir troseddau gwaethygedig a'r modd y bydd dedfrydu am droseddau eraill, gan ddefnyddio adran 146 y CJA.

2.35 Mae penderfynu p'un a yw troseddwr wedi'i ysgogi gan elyniaeth neu wedi troseddu oherwydd ei fod yn gweld bod y dioddefwr yn agored i niwed yn anhawster posib o ran unrhyw droseddau newydd a waethygwyd oherwydd anabledd. Er enghraifft, gellid troseddu yn erbyn person anabl am ei fod yn cael ei ystyried yn "darged hawdd" yn hytrach na bod gelyniaeth tuag at bobl ag anableddau yn ysgogi'r troseddwr. Ni fyddai hon yn drosedd waethygedig.

2.36 Yn y CP, fe ofynnom i ymgyngoreion p'un a fyddai unrhyw broblemau penodol yn codi o elfennau presennol y troseddau gwaethygedig pe baent yn cael eu hymestyn i gynnwys anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol.

## YR YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

### Troseddau gwaethygedig a diwygio dedfrydu estynedig

2.37 Mynegodd bron pob un o'r ymatebion gefnogaeth i'n dau gynnig i ddiwygio dedfrydu. Dywedodd y rhan fwyaf hefyd y byddai'r diwygiadau yn gallu cynhyrchu system ddedfrydu a allai ddarparu ymateb digonol i droseddu sy'n seiliedig ar elyniaeth mewn perthynas ag anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol. Unwaith eto, dywedodd y rhan fwyaf o ymatebion y dylai'r ddau ddiwygiad gael eu rhoi ar waith p'un a oedd troseddau gwaethygedig yn cael eu hymestyn hefyd ai peidio.

2.38 Ond dywedodd y rhan fwyaf o ymgyngoreion y dylai troseddau gwaethygedig gael eu hymestyn hefyd. Mae llawer o'r rhai a ddywedodd hyn yn bobl neu sefydliadau sydd â phrofiad o'r system cyfiawnder troseddol neu o gefnogi dioddefwyr troseddau casineb.

2.39 Y rheswm a roddwyd gan amlaf oedd ymdeimlad o anghydraddoldeb yn y system bresennol a'r angen i anfon neges glir bod troseddau casineb yn cael eu cymryd yr un mor ddifrifol, pa un bynnag o'r pum nodwedd warchodedig y mae'r elyniaeth yn ymwneud â hi. Dywedodd rhai ymgyngoreion oedd yn galw am estyniad y byddent hefyd yn derbyn cael gwared ar y troseddau gwaethygedig presennol yn gyfan gwbl, fel ffordd arall o ddatrys yr anghydraddoldeb.

2.40 Roedd dadleuon eraill o blaid ymestyn y troseddau yn cynnwys y canlynol:

(1) Gallai deddfu ac erlyn troseddau sy'n cario label "gwaethygedig" ac uchafswm dedfrydau uwch fod â gwerth symbolaidd ychwanegol fel arwydd o anghymeradwyaeth y wladwriaeth o droseddau casineb yn erbyn pobl anabl, neu bobl LGB neu drawsrywiol. Pan fydd rhywun yn cael ei erlyn am drosedd fwy difrifol mae hefyd yn cael effeithiau ar bobl eraill sy'n perthyn i'r grwpiau hynny, troseddwyr posibl, a chymdeithas yn ei chyfanrwydd.

(2) Gallai ymestyn y troseddau gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o droseddau casineb, gwella hyder yn yr ymateb cyfiawnder troseddol i droseddau casineb ac arwain at fwy o droseddau casineb yn cael eu hadrodd.

(3) Gallai ymestyn y troseddau wella ymchwiliadau'r heddlu a dull erlynwyr o weithio, mewn achosion o droseddau casineb yn erbyn pobl anabl, LGB neu drawsrywiol.

(4) Mae angen yr uchafswm dedfrydau uwch sydd ar gael dan droseddau gwaethygedig weithiau.

(5) Byddai mwy o gyfle i herio dedfrydau rhy drugarog ("ULS") mewn achosion o droseddau casineb yn erbyn pobl anabl, neu bobl LGB neu drawsrywiol oherwydd gall pob trosedd waethygedig gael ei chyfeirio at y Llys Apêl am fod yn rhy drugarog. Ni ellir gwneud hyn gyda'r un o'r troseddau sylfaenol.

(6) Mae manteision mewn cael gelyniaeth yn cael ei benderfynu gan reithgorau yn hytrach nag fel mater o ddedfrydu yn unig. Gan fod yn rhaid i'r erlyniad brofi gelyniaeth fel elfen o'r drosedd ei hun, mae gan D gyfle llawn i herio'r dystiolaeth cyn i'r rheithgor benderfynu os oedd gelyniaeth yn bresennol. Ar y llaw arall, os penderfynir ar elyniaeth yn unig wrth ddedfrydu, nid yw'r rheithgor yn cymryd rhan a'r barnwr yn unig sy'n gwneud yr asesiad. Hefyd, os yw D yn herio gelyniaeth wrth gael ei ddedfrydu, ond yn pledio'n euog, gallai'r clod am y ble euog honno gael ei ostwng os yw'r her yn methu. (Ar hyn o bryd dim ond tua 10% o achosion trosedd gwaethygedig sy'n cael eu rhoi ar brawf yn Llys y Goron. Mae'r gweddill yn cael eu profi gan ynadon, sy'n penderfynu ar yr euogrwydd a'r ddedfryd.)

2.41 Gwnaed dadleuon yn erbyn ymestyn y troseddau gan leiafrif o ymgyngoreion, barnwyr a gweithwyr proffesiynol yn bennaf sydd â phrofiad o erlyn y troseddau neu eu dadansoddi at ddibenion academaidd. Gwnaed pwyntiau grymus yn yr ymatebion hyn am y risgiau o ymestyn y troseddau yn eu ffurf bresennol, oherwydd eu cymhlethdod diangen a phroblemau wrth eu gweithredu.

2.42 Mynegodd rhai amheuon hefyd ynghylch a ddylem impio ar dair nodwedd wahanol set o droseddau a gafodd eu dylunio ddau ddegawd yn ôl i ymdrin â gelyniaeth hiliol. Efallai na fydd y troseddau yn addas o ystyried y troseddu sydd bellach yn cael ei gyflawni oherwydd gelyniaeth am y rhesymau eithaf gwahanol hyn.

2.43 O'r holl ddadleuon o blaid estyniad, canfuom mai'r ddadl oedd yn seiliedig ar angen am driniaeth gyfartal oedd y gryfaf. Mae anabledd, hunaniaeth trawsryweddol a chyfeiriadedd rhywiol eisoes wedi cael eu dewis gan y Senedd fel nodweddion gwarchodedig yn y system dedfrydu estynedig. Cyflwynwyd y system honno yn wreiddiol fel rhan o'r un Ddeddf Seneddol a gyflwynodd droseddau gwaethygedig.[1] Mae egwyddorion triniaeth gyfartal yn golygu y dylai fod rhesymau da dros beidio â'u cynnwys hefyd yn y gyfundrefn troseddau gwaethygedig. Ni welwn unrhyw resymau da dros beidio â'u cynnwys, yn seiliedig ar ein hymchwiliadau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

2.44 Ond fel y dywedon ni uchod, roedd amheuon cryf wedi cael eu mynegi am ymestyn y troseddau gwaethygedig yn eu ffurf bresennol. Roedd hyn yn rhoi penderfyniad anodd o'n blaenau. A ddylem argymell:

(1) diwygio'r gyfundrefn dedfrydu estynedig ar ei phen ei hun, er y byddai hyn yn gadael triniaeth anghyfartal o nodweddion troseddau casineb gwarchodedig yn eu lle, nad oedd unrhyw gyfiawnhad amlwg drostynt; neu

(2) ddiwygio dedfrydu ynghyd ag estyniad o'r troseddau gwaethygedig yn eu ffurf bresennol, er gwaethaf y pryderon difrifol a godwyd ynglŷn â ffurf a gweithrediad y troseddau a'u haddasrwydd ar gyfer anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol troseddau casineb.

[1] Er y cawsant eu hailddeddfu yn ddiweddarach ac maent bellach wedi'u cynnwys yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

### Yr angen am adolygiad ehangach

2.45 Dywedodd rhai ymgyngoreion fod ein cylch gorchwyl yn rhy gul. Fe wnaethant awgrymu y byddai cwmpas ehangach wedi helpu:

(1) i ddelio â phroblemau yn y rhestr bresennol o droseddau gwaethygedig

(2) i roi ystyriaeth briodol i wahaniaethau rhwng y nodweddion gwarchodedig perthnasol a phrofiadau dioddefwyr o droseddau casineb.

2.46 Dywedodd rhai hefyd fod y prosiect yn rhy "unochrog" am ei fod yn ystyried ymestyn y troseddau yn unig, nid eu dileu. Roedd eraill eisiau dadansoddiad dyfnach o'r sail ar gyfer cael deddfau troseddau casineb o gwbl, beth ddylai eu nod fod, a pham y dylai rhai nodweddion personol gael eu hamddiffyn, ond nid rhai eraill.

2.47 Os yw'r troseddau gwaethygedig presennol yn rhy gymhleth ac nad ydynt yn gweithio cystal ag y dylent, nid yw'n glir y dylai'r troseddau yn eu ffurf bresennol gael eu hymestyn at unrhyw nodweddion pellach. Mae angen ymchwilio i broblemau presennol a delio gyda'r rhain cyn ystyried ymestyn.

2.48 Hefyd, gall y mathau o droseddau sy'n gallu cael eu gwaethygu o dan CDA 1998 fod angen eu hadolygu. Efallai nad ydynt yn cynnwys rhai troseddau sy'n cael eu cyflawni yn gyffredin, mewn amgylchiadau o elyniaeth, yn erbyn pobl anabl, LGB a thrawsrywiol. Er enghraifft, adroddir am droseddau ariannol a throseddau rhywiol yn fwy aml mewn cyd-destun troseddau casineb gan ddioddefwyr troseddau LHD, trawsrywiol ac anabl. Pe bai troseddau gwaethygedig yn cynnig amddiffyniad effeithiol efallai y byddai angen creu ffurfiau gwaethygedig o'r troseddau hynny. Am y rheswm hwn, hefyd, dywedodd rhai ymgyngoreion y byddai'n well adolygu pa mor ddigonol fyddai troseddau gwaethygedig i fynd i'r afael â throseddau casineb anabledd, LHD a thrawsrywiol cyn ymestyn y troseddau.

2.49 Byddai adolygiad o'r fath yn galluogi gwneuthurwyr polisi i ystyried yn ddyfnach a ddylai nodweddion eraill gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth troseddau casineb ac ar ba egwyddorion y dylai'r nodweddion gael eu dewis. Er enghraifft, cyflwynwyd rhyw ac oedran fel nodweddion posibl i'w cynnwys, yn ogystal ag aelodau o isddiwylliannau eraill a'r rhai sy'n gweithio yn y lluoedd arfog. Mae'r ddau gyntaf yn "nodweddion gwarchodedig" pan ddaw at ddeddfau gwahaniaethu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2012: nid yw'r ail ddau yn rhai felly, ond gallai pobl gyda'r nodweddion hynny fod yn rhai sydd wedi dioddef trosedd casineb.

### EIN HARGYMHELLION: DEDFRYDU ESTYNEDIG

2.50 Rydym yn credu bod y rhan fwyaf - os nad y cyfan - o'r manteision a allai ddod o ymestyn y troseddau gwaethygedig lifo o'r defnydd wedi'i gymhwyso'n briodol a'i gofnodi'n gywir o'r system dedfrydu estynedig.

2.51 Mae'r system dedfrydu estynedig yn adlewyrchu penderfyniad y Senedd i neilltuo gelyniaeth fel ffactor gwaethygedig, gan roi dyletswydd ar farnwyr i ddedfrydu troseddu sy'n seiliedig ar elyniaeth yn fwy difrifol. Pan fydd sylwadau dedfrydu barnwyr yn cael eu cyhoeddi, fel y maent weithiau, gallant gyfleu condemniad y wladwriaeth a chymdeithas o droseddau casineb. Maent yn rhoi mynegiant a

chydnabyddiaeth i'r niwed difrifol y mae'n ei achosi i ddioddefwyr a chymunedau ehangach. Yn ymarferol, mae'n anghyffredin iawn i farnwr mewn achos o drosedd waethygedig ddefnyddio'r ystod o ddedfrydau y tu hwnt i'r uchafswm sydd ar gael am y drosedd honno pe bai wedi bod yn ddim ond trosedd sylfaenol. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r achos yn wahanol o ran anabledd, hunaniaeth drawsryweddol neu gyfeiriadedd rhywiol.

2.52 Eto gallai'r tan-ddefnydd ar hyn o bryd o ddedfrydu estynedig fod yn cael effaith andwyol ar hyder y gymuned a boddhad dioddefwyr. Gall hyn fod yn cyfrannu at y tan-adrodd ar droseddau casineb. Rydym yn gwneud dau argymhelliad sy'n gysylltiedig â dedfrydu i ymdrin â hyn (isod). Rydym yn argymell bod y rhain yn cael eu gweithredu p'run ai yw troseddau gwaethygedig yn cael eu hymestyn hefyd ai peidio.

**Canllawiau ar ddedfrydu ar gyfer gelyniaeth**

2.53 Byddai canllawiau newydd gan y Cyngor Dedfrydu yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd materion sy'n ymwneud â gelyniaeth yn cael eu codi mewn achosion priodol ac y byddai barnwyr yn cymhwyso'r adran ac yn dedfrydu yn unol â hynny. Dylai hyn fynd i'r afael â phryderon nad yw adran 146 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol wedi ei "gwreiddio" yn y broses erlyn. Byddai'n arwain at ddedfrydu cyson am droseddau yn ymwneud â gelyniaeth yn seiliedig ar anabledd, cyfeiriadedd trawsryweddol neu gyfeiriadedd rhywiol. Byddai'n rhoi cyfle i egluro'r dull dedfrydu cywir ym mhob achos lle mae gelyniaeth yn ffactor waethygedig, yn egluro meysydd sy'n peri dryswch ar hyn o bryd lle nad yw'r canllawiau'n ddigonol.

2.54 **Felly, rydym yn argymell bod y Cyngor Dedfrydu yn cyhoeddi canllawiau ar y dull o ddedfrydu troseddu sy'n seiliedig ar elyniaeth, o dan y troseddau gwaethygedig presennol yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ac yn unol ag adrannau 145 a 146 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.** Bydd ffurf a chynnwys unrhyw ganllawiau yn fater i'r Cyngor Dedfrydu.

**Cofnodi defnydd o ddedfrydu estynedig ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu**

2.55 Fel yr esboniwyd yn gynharach, pan fydd person yn euog o drosedd, mae'n cael ei gofnodi ar y PNC. Ar y llaw arall, nid oes cofnod fel arfer yn cael ei gofnodi ar y PNC am y defnydd o ddedfrydu estynedig. Mae'r PNC yn syml yn cofnodi bod trosedd wedi'i chyflawni a beth oedd y ddedfryd, nid ei bod wedi'i gwaethygu gan elyniaeth.

2.56 Dylai record y troseddwr ddangos sut y cymhwysir dedfrydu estynedig o dan CJA yn union fel y mae eisoes yn dangos euogfarnau am droseddau gwaethygedig hiliol neu grefyddol dan CDA.

2.57 Dylai rhoi gwybodaeth gywir am gofnodion troseddwyr i'r gwasanaethau carchar a phrawf lle mae canfyddiadau wedi cael eu gwneud ynghylch gelyniaeth waethygedig eu galluogi i deilwra rhaglenni adsefydlu ac addysg. Gallai hyn helpu i leihau aildroseddu o'r un math. Mewn achosion o aildroseddu, byddai hyn yn rhoi darlun llawn o'r gosb a haeddid i lysoedd dedfrydu yn y dyfodol a'r perygl y gallai'r troseddwr ei achosi i'r cyhoedd neu adrannau o'r cyhoedd.

2.58 Am resymau diogelu'r cyhoedd, hefyd, dylai hanes troseddwr o droseddu sy'n seiliedig ar elyniaeth fod ar gael, gan gynnwys ar gyfer archwiliadau cofnodion troseddol. Diben canolog y cynllun fetio cofnodion troseddol yw sicrhau bod penderfyniadau ynglŷn â chyflogaeth, yn enwedig y rhai sy'n berthnasol i swyddi sy'n gweithio gyda grwpiau agored i niwed, yn cael eu gwneud gyda'r wybodaeth angenrheidiol am gofnod troseddol yr ymgeisydd.

2.59 **Felly, rydym yn argymell y dylai'r defnydd o'r darpariaethau dedfrydu estynedig yn adran 145 neu 146 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 gael eu cofnodi bob amser ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a'u hadlewyrchu ar gofnod y troseddwr.**

## EIN HARGYMHELLION: Y TROSEDDAU GWAETHYGEDIG

### Yr angen am adolygiad llawn

2.60 Rydym yn rhannu barn llawer o ymgyngoreion ei bod yn annheg ac yn wahaniaethol i'r troseddau gwaethygedig beidio â bod yn berthnasol i droseddu yn seiliedig ar elyniaeth ar sail hunaniaeth drawsrywiol, tueddfryd rhywiol ac anabledd, pan maent yn berthnasol i droseddu a waethygir gan elyniaeth hiliol a chrefyddol. Mae'n anfon y neges anghywir am effaith troseddu o'r fath a pha mor ddifrifol y mae'n cael ei gymryd, os yw troseddau gyda label "gwaethygedig" penodol a dedfryd a allai fod yn uwch fodoli ar gyfer dwy o'r pum nodwedd warchodedig yn ymwneud â throseddau casineb.

2.61 Gallai'r anghydraddoldeb fod yn ddadl ddigon cryf i ni argymell estyniad uniongyrchol y troseddau, ond am y pryderon difrifol a fynegwyd ynghylch y troseddau gwaethygedig cyfredol. Gallai problemau gyda'r troseddau hyn fod yn peri i erlyniadau fethu. Gallai cymhlethdodau diangen hefyd fod yn cael effaith negyddol ar y system dedfrydu estynedig, oherwydd eu nodweddion cyffredin ac oherwydd dryswch ynghylch y ffordd y mae'r ddau gynllun - troseddau gwaethygedig a dedfrydu estynedig - yn cydberthyn. Rhaid i'r materion hyn gael eu harchwilio ymhellach.

2.62 Yn ogystal â phryderon am y troseddau gwaethygedig cyfredol, codwyd cwestiynau dyfnach ynghylch y cyfiawnhad dros droseddau gwaethygedig a thros ddewis rhai nodweddion i'w gwarchod, ond nid rhai eraill. Mae angen ystyried y cwestiynau hyn ymhellach hefyd, yn ddelfrydol cyn gwneud unrhyw benderfyniad i ymestyn y troseddau cyfredol. Fel y dadleuodd rhai ymgyngoreion[2] hefyd, rhaid i benderfyniad gwybodus a chytbwys ar yr achos dros ymestyn y ddeddfwriaeth hon hefyd ystyried y dadleuon damcaniaethol yn erbyn y troseddau a'r achos dros eu diddymu.

2.63 Os nad yw'r troseddau gwaethygedig yn gweithio'n effeithiol, neu os nad ydynt yn addas yn eu ffurf bresennol i fynd i'r afael â throseddau casineb yn erbyn pobl anabl, neu bobl LGB neu drawsrywiol, ychydig o werth ymarferol a fyddai i'r troseddau newydd neu ddim gwerth o gwbl. Byddai eu hymestyn mewn perygl o fod yn symbolaidd i raddau helaeth. Yn waeth fyth, gallent arwain at y ffaith na

[2] Codwyd y pwynt hwn mewn gwahanol ffyrdd gan yr Athro P Alldridge, Yr Athro R Taylor, Dr F Stark, Mr I Hare a Mr J Troke. Fel yr esboniwyd yn gynharach, awgrymodd nifer o gyrff anllywodraethol hefyd y gallai triniaeth gyfartal gael ei rhoi drwy ddiddymu'r troseddau, yn ogystal â thrwy eu hymestyn.

fyddai gwaethygu gelyniaeth yn cael ei drin o gwbl yng nghanlyniad terfynol achosion, er bod yr achosion hynny wedi eu hadrodd a'u herlyn fel "troseddau casineb". Mae hyn oherwydd os cafodd achos ei erlyn fel trosedd waethygedig ond cafodd y troseddwr ei erlyn am ffurf sylfaenol y drosedd yn unig, yna ni all y ddedfryd gael ei hymestyn am elyniaeth o dan adrannau 145 neu 146 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol.

2.64 Mae troseddau casineb hiliol a chrefyddol yn cyfrif am tua 85% o'r holl droseddau casineb yr adroddir amdanynt yn y DU. Mae niferoedd yr achosion a gofnodwyd wedi cynyddu'n sylweddol yn y flwyddyn 2013, yn ôl rhai adroddiadau. Am y rheswm hwn, hefyd, mae'n bwysig bod unrhyw ddiffygion yn y model cyfredol o droseddau gwaethygedig yn cael sylw. Os nad yw'r troseddau gwaethygedig presennol yn gweithio'n dda, mae hyn yn gwastraffu adnoddau ac yn arwain at ganlyniadau gwael i ddioddefwyr. Mae'n anfon y neges anghywir at droseddwyr troseddau casineb posibl, troseddwyr gwirioneddol a'r gymdeithas ehangach am ddifrifoldeb yr ystyriaeth a rydd y wladwriaeth i droseddau casineb. Mae'r un peth yn wir ar gyfer dedfrydu estynedig ac unrhyw fethiannau yn ei weithrediad.

2.65 Yn olaf, mae arnom angen egwyddorion cliriach ar gyfer dewis nodweddion y dylid eu gwarchod o dan y drefn troseddau casineb.

2.66 Am y rhesymau hyn, rydym yn dod i'r casgliad y byddai buddiannau cyfiawnder wrth ymateb yn effeithiol i droseddau casineb yn cael eu gwasanaethu orau drwy gynnal adolygiad llawn. Dylai hyn ddigwydd cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ynglŷn ag a ddylid ymestyn y troseddau gwaethygedig. Byddai ymestyn cyn gwneud adolygiad o'r fath yn opsiwn diwygio llai gwerthfawr. Byddai manteision cyfyngedig i ddioddefwyr troseddau casineb a rhai effeithiau andwyol posibl.

2.67 **Felly, o ran y troseddau gwaethygedig, ein prif argymhelliad yw am adolygiad ar raddfa lawn o weithrediad y troseddau gwaethygedig a'r system dedfrydu uwch. Dylai adolygiad o'r fath edrych ar yr holl ddata sydd ar gael i sefydlu a ddylai troseddau o'r fath a darpariaethau dedfrydu gael eu cadw, eu diwygio, eu hymestyn neu eu diddymu, pa nodweddion sydd angen eu gwarchod, ac ar ba sail y dylid trin y nodweddion gwarchodedig.**

2.68 Nid ydym yn rhagnodi telerau'r adolygiad, ond rydym yn rhagweld y gallai edrych ar y cwestiynau canlynol.

(1) Beth yw dibenion cyfreithiau sy'n ymdrin yn benodol â throseddu sy'n seiliedig ar elyniaeth

(a) i ddioddefwyr?

(b) i'r system cyfiawnder troseddol?

(c) i'r gymdeithas ehangach?

(2) I ba raddau y mae'r systemau presennol o droseddau gwaethygedig a dedfrydu estynedig (yn unigol ac ar y cyd) yn ateb y dibenion hynny?

(3) I ddioddefwyr, beth yw'r ffordd orau i'r gyfraith ymateb i droseddau casineb?

(4) Os oes angen troseddau gwaethygedig neu os ydynt yn ddymunol:

(a) Pa fodel y dylid ei ddefnyddio i droseddoli'r elfen casineb neu elyniaeth?

(i) A ddylai'r troseddau gyfeirio at "elyniaeth", neu ryw agwedd arall fel "rhagfarn" neu "duedd"?

(ii) Neu a ddylent droseddoli "targedu bwriadol" person oherwydd ei nodweddion, neu ei natur fregus / anallu i amddiffyn neu adrodd am yr ymosodiad?

(iii) Sut y dylid asesu hyn: trwy dystiolaeth o gymhelliant y diffynnydd? Neu o amgylchiadau'r drosedd, ee beth ddywedodd y diffynnydd neu beth a wnaeth i'r dioddefwr wrth gyflawni'r drosedd?

(b) Ar gyfer pob nodwedd warchodedig, pa fathau o droseddau casineb sydd fwyaf cyffredin ac a ddylid eu rhestru i gyd fel troseddau y gellir eu gwaethygu?

(5) Os oes angen dedfrydu estynedig neu os yw'n ddymunol, pa fodel y dylid ei ddefnyddio? Os yw'n seiliedig ar "elyniaeth", sut y dylid asesu hynny (cwestiynau (i) i (iii) uchod)? A ddylai'r ffactorau gwaethygedig cyffredinol o gam-drin ymddiriedaeth neu bŵer, neu dargedu dioddefwr agored i niwed, gael eu gosod ar yr un sail statudol ag adran 146 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol?

(6) Pa nodweddion gwarchodedig y dylid cyfeirio atynt yn benodol mewn troseddau a/neu'r system ddedfrydu estynedig? Ar ba egwyddorion y dylid eu dewis?

(7) Pa gynlluniau neu fesurau eraill y gellid eu cyflwyno? A ddylent gynnwys, er enghraifft: gwell canllawiau ar gyfer rhai sy'n cymhwyso'r ddeddfwriaeth; defnydd mwy effeithiol o ddewisiadau amgen i'r broses droseddol; cynlluniau gwrth-fwlio a mentrau addysg eraill; rheolaeth fwy effeithiol ar y rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol; rheoleiddio'r wasg a'r cyfryngau; adsefydlu; ail addysgu yn y carchar; cyfiawnder adferol? Galwyd am y rhain i gyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dywedodd llawer o bobl eu bod mor bwysig â deddfwriaeth, neu'n fwy felly, wrth ymateb i droseddau casineb yn effeithiol.

2.69 Nid ein lle ni yw cyflwyno'n fanwl gwmpas unrhyw adolygiad o ddeddfwriaeth troseddau casineb yn y dyfodol. Mater i adrannau cyfrifol y Llywodraeth (y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder) ac asiantaethau cyfiawnder troseddol fydd penderfynu ar hyn. Byddant yn cael eu harwain gan ganlyniadau Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb tair blynedd y Llywodraeth (a ddaw i ben ym mis Mawrth 2015) a'r dystiolaeth fwyaf diweddar ar droseddau casineb. Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn a'r ymatebion i'r ymgynghoriad o werth yn yr ymarferiad hwnnw.

2.70 Wrth argymell adolygiad llawn, rydym yn awyddus i sicrhau bod yr ymateb cyffredinol gorau o ran cyfiawnder troseddol yn cael ei roi i droseddau casineb.

Rydym am weld y canlyniad gorau posibl i ddioddefwyr sy'n dioddef trosedd sy'n seiliedig ar elyniaeth tuag at nodwedd warchodedig. Byddai'r adolygiad rydym yn ei argymell yn rhoi cyfle i'r Llywodraeth a'r asiantaethau cyfiawnder troseddol asesu pa mor dda y mae'r system bresennol yn gwasanaethu ei phwrpas ar gyfer yr holl nodweddion mae'n anelu at eu gwarchod.

**Argymhelliad amgen**

2.71 Bydd adolygiad manwl o'r troseddau gwaethygedig a'r gyfundrefn dedfrydu yn cymryd amser ac adnoddau os yw i wasanaethu unrhyw ddiben defnyddiol. Rydym yn sylweddoli heb gefnogaeth y Llywodraeth a'r adnoddau angenrheidiol, na fydd adolygiad o'r cwmpas angenrheidiol yn digwydd.

2.72 **Os nad yw ein hargymhelliad am adolygiad ehangach yn cael ei gefnogi gan y Llywodraeth, rydym yn argymell, yn y dewis arall, bod y troseddau gwaethygedig yn cael eu hymestyn at anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth trawsryweddol, er mwyn sicrhau triniaeth gyfartal ar draws y pum nodwedd warchodedig troseddau casineb a ddiogelir yn statudol. Ym mhob un o'r tri achos, dylai'r diffiniadau o'r nodweddion hyn fod y rhai a ddefnyddir eisoes yn y system dedfrydu estynedig.** Am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 2.63 – 2.72 uchod, nid dyma'r ateb a ffafrir gennym ac mae'n cynrychioli opsiwn diwygio ail orau o gymharu â'r adolygiad ehangach yr ydym wedi ei argymell.

# RHAN 3
# Y TROSEDDAU YSGOGI CASINEB

### Y GYFRAITH BRESENNOL

3.1 Mae nifer o droseddau sy'n ei gwneud yn drosedd i gymryd rhan mewn ymddygiad y bwriedir iddo, neu sy'n debygol o, ysgogi casineb tuag at grŵp o bobl oherwydd eu hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r troseddau casineb hiliol i'w gweld yn adrannau 18-23 y Ddeddf Trefn Gyhoeddus ("POA") 1986. Mae'r troseddau o ysgogi casineb ar sail crefydd a chyfeiriadedd rhywiol i'w gweld yn adrannau 29B i 29F.

3.2 Y chwe math o ymddygiad a gwmpesir gan y troseddau hyn yw:

- defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus neu arddangos deunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol, yn ddifrïol neu'n sarhaus;
- cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol, yn ddifrïol neu'n sarhaus;
- cyflwyno neu gyfarwyddo drama yn gyhoeddus yn ymwneud â defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus;
- dosbarthu, dangos neu chwarae recordiad o luniau neu seiniau sy'n fygythiol, yn ddifrïol neu'n sarhaus;
- darparu, cynhyrchu neu gyfarwyddo rhaglen (er enghraifft, rhaglen deledu neu radio) lle mae'r rhaglen yn golygu lluniau neu seiniau bygythiol, difrïol neu sarhaus, neu ddefnyddio geiriau bygythiol, neu ymddygiad ymosodol neu sarhaus; neu
- meddu ar ddeunydd ysgrifenedig, neu recordiad o luniau neu seiniau, sy'n fygythiol, yn ddifrïol neu'n sarhaus, gyda golwg ar iddo gael ei arddangos, ei gyhoeddi, ei ddosbarthu, ei ddangos, ei chwarae neu ei gynnwys mewn rhaglen.

3.3 Mae gan y troseddau ysgogi casineb wahanol elfennau ar gyfer casineb hiliol nag ar gyfer casineb ar sail tueddfryd rhywiol neu grefydd. Y gwahaniaethau allweddol yw:

(1) ***Hil*** - rhaid i'r geiriau neu ymddygiad fod y*n fygythiol, yn ddifrïol neu'n sarhaus* ac mae'n rhaid bod yna *fwriad* wedi bod i ysgogi casineb, neu *debygolrwydd* y gellid ei ysgogi.

(2) ***Crefydd*** - rhaid i'r geiriau neu ymddygiad fod yn *fygythio*l ac mae'n rhaid bod yna *fwriad* wedi bod i ysgogi casineb. Hefyd, darperir amddiffyniad penodol i ddiogelu rhyddid i lefaru. Mae hyn yn dweud nad yw beirniadu, sarhau neu wawdio credoau crefyddol yn drosedd dan y gyfraith ysgogi.

(3) ***Cyfeiriadedd rhywiol*** - rhaid i'r geiriau neu ymddygiad fod yn *fygythiol* ac mae'n rhaid bod yna *fwriad* wedi bod i ysgogi casineb. Mae amddiffyniad penodol yn cael ei ddarparu i ddiogelu rhyddid i lefaru. Mae hyn yn dweud nad yw beirniadu ymddygiad neu arferion rhywiol neu annog ataliad yn drosedd o dan y gyfraith ysgogi.

3.4 Mae'r troseddau ysgogi yn wahanol iawn i'r troseddau gwaethygedig a'r gyfraith dedfrydu estynedig. Mae'r troseddau gwaethygedig yn berthnasol i droseddau sydd eisoes yn bodoli (fel ymosodiad, aflonyddu neu ddifrod troseddol), yn erbyn un neu fwy o ddioddefwyr unigol, fel yr esboniwyd yn gynharach. Ond mae'r troseddau ysgogi yn creu troseddau newydd penodol o ysgogi casineb. Mae'r casineb yn erbyn grŵp penodol, nid unigolyn. Mae erlyniadau am y troseddau ysgogi yn brin iawn o'i gymharu â'r troseddau gwaethygedig.

### Nodweddion cyffredin y troseddau ysgogi

#### *Ystyr "bygythiol, difrïol neu sarhaus"*

3.5 Nid oes gan y geiriau "bygythiol, difrïol neu sarhaus" unrhyw ystyr cyfreithiol arbennig. Bydd y rheithgor neu'r ynadon sy'n penderfynu ar yr achos yn penderfynu a oedd y geiriau neu ymddygiad yn fygythiol, yn ddifrïol neu'n sarhaus, yn seiliedig ar ystyr arferol y geiriau hynny.

#### *Ystyr "casineb"*

3.6 Nid yw casineb yn cael ei ddiffinio yn y POA, ond diffiniad o gasineb yn y geiriadur yw: "yr emosiwn o deimlo casineb, atgasedd, ffieidd-dra, gelyniaeth, malais”. Diffinnir y ferf fel: "teimlo atgasedd cryf iawn, ffieiddio, dwyn malais yn erbyn, y gwrthwyneb i "caru"'. Mae "casineb" yn gryfach na "gelyniaeth". Mae cyfarwyddyd y CPS ar ysgogi casineb yn dweud:

> Mae casineb yn emosiwn cryf iawn. Efallai na fydd ysgogi tensiwn hiliol, gwrthwynebiad, hyd yn oed gelyniaeth o anghenraid yn ddigon i gyfrif fel trosedd.

### Y PAPUR YMGYNGHORI

3.7 Ym Mhennod 4 o'r CP dadansoddwyd yr achos dros ymestyn y troseddau ysgogi i gynnwys casineb ar sail anabledd a hunaniaeth trawsryweddol. Yn ein trafodaethau cychwynnol gyda rhanddeiliaid, ni wnaeth yr angen am droseddau ysgogi newydd ddod i'r amlwg fel mater canolog. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar yr angen i ymdrin ag adroddiadau negyddol yn y cyfryngau ar faterion anabledd a thrawsryweddol, ac i ymateb yn fwy effeithiol i droseddu sy'n bodoli eisoes yn cynnwys aflonyddu a cham-drin, yn enwedig yr hyn sy'n digwydd ar-lein a thrwy safleoedd cyfryngau cymdeithasol.

3.8 Fe wnaethom ystyried yn gyntaf a oedd achos dros ymestyn y troseddau ysgogi mewn egwyddor i gynnwys anabledd a hunaniaeth drawsryweddol. Fe wnaethom ofyn a yw tramgwyddau troseddol presennol (a mesurau nad ydynt yn droseddol) eisoes yn delio â'r ymddygiad y byddai troseddau ysgogi newydd yn eu trin. Buom yn trafod gwerth symbolaidd troseddoli wrth fynegi pa ymddygiad y mae'r wladwriaeth a chymdeithas yn eu hystyried yn ddigon difrifol i warantu eu gwneud yn drosedd, o ran difrifoldeb y camwedd, neu'r effaith a gaiff ar ddioddefwyr a chymunedau ehangach. Buom yn archwilio a fyddai troseddau ysgogi newydd yn cyflawni'r swyddogaeth honno yn fwy effeithiol na chyfreithiau presennol a'u gorfodi.

3.9 Gofynnwyd hefyd pa effaith y byddai troseddoli yn ei chael ar hawliau a mathau eraill o ryddid, yn enwedig rhyddid mynegiant. Roedd pryderon am hyn yn ymddangos mewn dadleuon ynghylch a ddylai'r troseddau casineb hiliol

gwreiddiol gael eu hymestyn i gynnwys casineb ar sail crefydd a chyfeiriadedd rhywiol.

3.10 Mynegodd y CP y farn dros dro bod achos mewn egwyddor dros ymestyn y troseddau ysgogi i gynnwys ysgogi casineb ar sail anabledd a hunaniaeth drawsryweddol. Gwnaethom nodi gorgyffwrdd rhwng y mathau o ymddygiad a gwmpesir gan droseddau troseddol presennol ac ymddygiad a fyddai'n cael ei gwmpasu gan unrhyw droseddau ysgogi newydd. Ond gwelwyd nad oedd math unigryw, penodol a difrifol o gamwedd yn cael ei drin gan y gyfraith bresennol: lledaenu casineb yn erbyn grŵp (pobl anabl neu drawsrywiol), naill ai'n fwriadol, neu lle roedd hynny'n debygol o dan yr amgylchiadau. Byddai troseddau ysgogi newydd yn cynnwys hynny.

3.11 Er y gall dedfrydu gwell gael ei ddefnyddio i ymdrin â gelyniaeth yn erbyn pobl anabl neu drawsrywiol lle mae trosedd wedi cael ei chyflawni, nid yw'n darparu ymateb cyflawn. Mae hyn oherwydd lle nad yw'r ymddygiad yn droseddol, ni ellir defnyddio adran 146 - gall dedfrydu estynedig gael ei ddefnyddio dim ond pan fydd y diffynnydd wedi cael ei gollfarnu o drosedd sydd eisoes yn bodoli. Hefyd, hyd yn oed lle mae'r camweddu *yn* droseddol, ni all cymhwyso adran 146

(a) newid y label neu ddisgrifiad o'r drosedd i'w gwneud yn glir mai ysgogi casineb yw'r camweddau o dan sylw; neu

(b) gynyddu uchafswm y gosb sydd ar gael am y drosedd benodol.

3.12 Ar ôl nodi'r "bwlch" hwn yn y gyfraith droseddol ar hyn o bryd, fe wnaethon ofyn wedyn a oedd ymgyngoreion o'r farn fod unrhyw angen ymarferol i'r troseddau gael eu hymestyn i'w gwmpasu ac, os felly, pam.

**YR YMATEB I'R YMGYNGHORIAD**

3.13 Roedd y rhan fwyaf o'r ymgyngoreion yn cytuno bod achos mewn egwyddor i ymestyn y troseddau ysgogi. Ni wnaeth y rhan fwyaf roi rhesymau. O'r rhai a wnaeth, y rheswm a roddwyd amlaf oedd y dylai'r un nodweddion gael eu diogelu yn yr un modd gan holl ddeddfwriaeth y troseddau casineb. Rheswm cyffredin arall oedd y byddai'r troseddau yn delio â chamwedd difrifol yn erbyn pobl anabl a thrawsryweddol na allai'r gyfraith a'r model dedfrydu presennol ymdrin ag ef yn iawn.

3.14 Fel ar gyfer yr ymgyngoreion oedd yn anghytuno bod achos mewn egwyddor, eu prif bryderon oedd:

(1) Byddai'r troseddau'n amharu'n ormodol ar ryddid mynegiant. Efallai y byddent yn atal trafodaeth ar faterion anabledd a thrawsrywedd ac agweddau neu arferion cymdeithasol sy'n berthnasol iddynt.

(2) Mae'r troseddau yn ddiangen yn ymarferol oherwydd:

(a) diffyg tystiolaeth bod yr ymddygiad y byddent yn ei drin yn gyffredin;

(b) mae'r ymddygiad y byddent yn ymdrin ag ef yn dod eisoes o dan droseddau presennol a mesurau nad ydynt yn droseddol.

3.15 Dadleuodd y rhan fwyaf o ymgyngoreion bod angen ymarferol am y troseddau. Rhoddwyd dau brif reswm: (1) mae ymddygiad y bwriedir iddo neu sy'n debygol o ysgogi casineb ar sail hunaniaeth drawsryweddol neu anabledd, mewn gwirionedd, yn digwydd yn aml; rhoddwyd rhai enghreifftiau penodol o lefaru yn dangos yr angen ymarferol am droseddau newydd; (2) mae problem gyffredinol o dan-adrodd am droseddau casineb sy'n effeithio ar ddioddefwyr anabl a thrawsrywiol. Gallai ymestyn y troseddau ysgogi arwain at fwy o adrodd, am droseddau casineb sy'n bodoli eisoes ac am ymddygiad y bwriedir iddo neu sy'n debygol o ysgogi casineb nad yw'n cael ei adrodd ar hyn o bryd oherwydd nad yw yn drosedd.

3.16 Dywedodd y rhai oedd yn dadlau yn erbyn unrhyw angen ymarferol am estyniad nad oedd unrhyw dystiolaeth glir o ymddygiad na ellid ei drin o dan y gyfraith bresennol. Fe wnaethant ddweud hefyd y byddai troseddau newydd, beth bynnag, yn debygol o helpu i frwydro yn erbyn neu erlyn y cynnydd enfawr mewn cam-drin yn y cyfryngau cymdeithasol ar y rhyngrwyd a chasineb wrth lefaru. Byddai mwy i'w ennill o wella'r broses o fonitro a rheoli deunydd o'r fath ar y rhyngrwyd.

**EIN HARGYMHELLIAD: Y TROSEDDAU YSGOGI**

3.17 Rydym yn dod i'r casgliad y byddai cyfiawnhad mewn egwyddor dros ymestyn y troseddau o ysgogi casineb, pe gellid dangos angen cymdeithasol gwirioneddol a brys dros wneud hynny.

3.18 Byddai'r enghreifftiau a ddarparwyd i ddangos bod angen ymarferol i ymestyn y troseddau yn cael eu hystyried yn sarhaus iawn gan y rhan fwyaf o bobl. Ond nid ydynt yn gyfystyr â thystiolaeth glir o fodolaeth gyffredin ymddygiad sydd wedi ei fwriadu neu sy'n debygol o ysgogi casineb ar sail hunaniaeth drawsryweddol neu anabledd. Gallai'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau gael eu herlyn (a'u dedfrydu yn ddigonol) o dan y gyfraith bresennol.

3.19 Mae camddealltwriaeth cyffredinol ynghylch yr ymddygiad y gallai troseddau ysgogi newydd gael eu defnyddio i'w erlyn. Nid yw hyn yn syndod: anaml iawn y maent yn cael eu herlyn ac maent yn hynod o gymhleth o ran eu strwythur. O'r enghreifftiau a ddarparwyd i ni mewn perthynas ag anabledd, er y gallai llawer fodloni troseddau sydd eisoes yn bodoli fel aflonyddu a defnyddio iaith fygythiol, ymosodol neu sarhaus, ychydig o dystiolaeth a geir, os o gwbl, o ymddygiad a fyddai'n bodloni elfennau gwahanol iawn y troseddau ysgogi.

3.20 Rydym hefyd yn dod i'r casgliad pe bai troseddau newydd o ysgogi casineb ar sail anabledd a hunaniaeth drawsryweddol yn cael eu creu, mai ychydig iawn o erlyniadau llwyddiannus a fyddai. Rydym yn seilio hyn ar yr ystyriaethau canlynol:

(1) Ychydig iawn o erlyniadau a geir am y troseddau presennol o ysgogi casineb. (Nid oedd unrhyw rai o gwbl am y flwyddyn 2012-2013 yn ôl adroddiad diweddaraf y CPS ar drosedd casineb.)

(2) Mae'r math o gasineb llefaru a geir yn nodweddiadol mewn perthynas ag anabledd a hunaniaeth drawsrywiol yn annhebygol o fodloni'r gofynion ar gyfer trosedd ysgogi a ganfyddir mewn perthynas â hil a chrefydd. Yn aml mae'n golygu datganiadau barn (sarhaus iawn yn aml) y bwriedir

iddynt ysgogi sylw neu ddadl ac nad ydynt wedi eu bwriadu nac yn debygol o achosi pobl i gasáu pobl anabl neu drawsrywiol.

(3) Byddai llawer o'r enghreifftiau a gafodd eu dwyn i'n sylw yn cael eu cwmpasu gan droseddau eraill.

(4) Felly, byddai llai fyth o erlyniadau llwyddiannus am y troseddau ysgogi newydd nag sydd yn awr ar gyfer y rhai sydd eisoes yn bodoli.

3.21 Yn unol â hynny, byddai effeithiau symbolaidd ac ataliol y troseddau newydd, ac unrhyw effeithiau eraill, ee ar adrodd am droseddau casineb, yn gyfyngedig iawn.

3.22 **Felly, rydym yn argymell nad yw troseddau ysgogi yn cael eu hymestyn.**

3.23 Wrth ddod i'r casgliad hwn nid ydym yn anghofio maint yr elyniaeth, y cam-drin a'r rhagfarn sy'n bodoli yn erbyn pobl anabl a phobl drawsrywiol, na graddau'r ymddygiad troseddol a ysgogir gan, neu sy'n cynnwys, arddangos gelyniaeth tuag at bobl anabl neu drawsrywiol. Rydym yn cydnabod bod hyn yn broblem gymdeithasol ddifrifol sy'n gofyn am ymateb cryf a chydlynol gan y system cyfiawnder troseddol. Ond nid ydym yn fodlon y byddai'r gofynion prawf uchel a osodwyd gan y troseddau ysgogi yn cael eu bodloni gan y llefaru a'r ymddygiad dan sylw.